Asesiad Effaith Hawliau Plant

Creu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru

1. Amcanion polisi

- **Beth yw'r cynnig rydych yn asesu ei effaith?**

  Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru er mwyn negodi Cytundebau Cyflog Teg y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol. Bydd Corff Negodi Gofal Cymdeithasol Cymru yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr i gytuno ar safonau gofynnol ar gyfer cyflog, telerau ac amodau a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â'r gweithlu.

  Er mai ar y gweithlu mae'r polisi yn canolbwyntio'n bennaf, gallai gael effaith anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, plant anabl, gofalwyr ifanc, plant mewn cartrefi a gefnogir gan weithwyr gofal cymdeithasol a phlant mewn teuluoedd sy'n dibynnu ar drefniadau gofal sefydlog. Mae'r diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol yn fwriadol eang er mwyn i Gorff Negodi Gofal Cymdeithasol Cymru allu ystyried pawb mewn rolau gofal cymdeithasol, mewn perthynas â phlant, gallai'r rolau hynny fod yn weithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal preswyl plant, gweithwyr gofal cartref a chynorthwywyr personol.

  Ein canlyniad bwriadedig drwy'r polisi hwn yw gwella sefydlogrwydd o fewn y gweithlu drwy wella cyflog, telerau ac amodau; a chefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr medrus. Gallai hyn helpu i leihau trosiant staff a galluogi plant a phobl ifanc i feithrin cydberthnasau cryf â'r rhai sy'n darparu eu gofal a'u cymorth drwy ymgysylltu'n gyson â'r un gweithwyr.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- **Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol? Gallai eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau â thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu ystod o wybodaeth a thystiolaeth.**

  Mae'r sail dystiolaeth yn cynnwys ymchwil gan Gofal Cymdeithasol Cymru, dadansoddiad yr ymgynghoriad, gwybodaeth ddemograffig o ymatebion i'r ymgynghoriad a gwersi a ddysgwyd o'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol. Dangosodd ein hymgynghoriad fod rhai ymatebwyr yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer, gan gynnwys cartrefi gofal i blant, llety diogel, gwasanaethau maethu, canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig a lleoliadau gofal cymdeithasol eraill i blant. Dengys tystiolaeth berthnasol o Gymru y gall sefydlogrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol effeithio ar ansawdd, parhad ac argaeledd gofal. Gall trosiant uchel a phrinder gweithlu effeithio ar gysondeb a

chynaliadwyedd gwasanaethau, gan gynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael cymorth gan y gweithlu hwn.

- **Gan ddefnyddio'r ymchwil hon, ym mha ffordd rydych yn rhag-weld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.**

  Disgwylir i'n polisi gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol yn bennaf ar blant a phobl ifanc. Gallai cyflog, telerau ac amodau gwell helpu i recriwtio staff a'u cadw mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, gan helpu, o bosibl, i ddarparu cydberthnasau mwy sefydlog a pharhad cymorth i blant sy'n cael gofal. Gall hefyd fod o fudd i blant mewn aelwydydd lle mae rhiant neu ofalwr yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol, drwy wella incwm, diogelwch ariannol a llesiant yr aelwyd. Gallai fod o fudd i blant anabl, plant ag anghenion cymhleth, plant mewn gofal a phlant â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr ifanc a phlant mewn aelwydydd incwm isel yn arbennig os bydd sefydlogrwydd y gweithlu yn gwella mynediad at gymorth dibynadwy.

  Gallai effeithiau negyddol posibl godi os na chaiff Cytundebau Cyflog Teg yn y dyfodol eu hariannu'n ddigonol, a fyddai'n rhoi pwysau ar gynaliadwyedd darparwyr, argaeledd gwasanaethau, taliadau uniongyrchol neu gostau gofal. Dylid ystyried y risgiau hyn mewn asesiadau effaith yn y dyfodol pan fydd telerau a negodwyd yn hysbys.

- **Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.**

  Ni fu unrhyw waith cyfranogol uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc hyd yma am fod ein cynnig yn canolbwyntio ar y fframwaith cyflogaeth ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn hytrach na newid gwasanaethau neu hawliau plant yn uniongyrchol. Fodd bynnag, gallai'r polisi gael effaith anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

  Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys plant â phrofiad o fod mewn gofal, plant anabl, gofalwyr ifanc a phlant sy'n cael cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant, cyn i Gytundebau Cyflog Teg gael eu rhoi ar waith yn y dyfodol, yn enwedig pe gallai'r telerau a negodwyd effeithio ar argaeledd gwasanaethau, parhad neu drefniadau talu uniongyrchol.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- **Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?**

  Mae'r effaith debygol ar blant a phobl ifanc yn gadarnhaol ar y cyfan ond yn anuniongyrchol. Gallai ein cynnig wella sefydlogrwydd y gweithlu, parhad gofal, ansawdd cymorth ac incwm aelwydydd i blant mewn teuluoedd lle mae

oedolion yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol. Gall hefyd gefnogi llesiant plant os ydynt yn dibynnu ar wasanaethau gofal cymdeithasol, seibiant, cymorth ac allgymorth, gwasanaethau preswyl i blant, gwasanaethau maethu neu gymorth i blant anabl a phlant ag anghenion cymhleth.

Gallai effeithiau negyddol posibl gynnwys llai o fynediad at ofal neu gostau uwch os na fydd cytundebau yn y dyfodol yn fforddiadwy neu os na fydd cyllid yn cyrraedd darparwyr. Dylai mesurau lliniaru gynnwys gwiriadau fforddiadwyedd a chyflawnadwyedd, ystyried effeithiau ar wasanaethau plant a thaliadau uniongyrchol, ymgysylltu â gwasanaethau plant a theuluoedd perthnasol, canllawiau hygyrch i gomisiynwyr a darparwyr, ac adolygiad pellach o'r Effaith ar Hawliau Plant pan gaiff y Cytundeb Cyflog Teg cyntaf ei negodi. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y rhain ymhellach pan fyddwn yn pennu cylch gwaith y Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru wrth iddo baratoi i negodi rownd nesaf y Cytundeb Cyflog Teg.

- **Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Nodwch <u>bob</u> erthygl berthnasol sy'n gymwys i'ch polisi ac eglurwch sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio'r hawl honno. Pan fydd effaith negyddol bosibl wedi'i nodi, esboniwch unrhyw gamau lliniaru a gymerir.**
- **Erthygl 3 – Lles pennaf y plentyn:** Gallai'r cynnig atgyfnerthu'r hawl hon drwy gefnogi, o bosibl, gweithlu gofal cymdeithasol mwy sefydlog a sicrhau mwy o barhad gofal. Un her bosibl yw y gallai cytundebau na chânt eu hariannu'n ddigonol effeithio ar argaeledd gwasanaethau. Dylai mesurau lliniaru gynnwys gwiriadau fforddiadwyedd a chyflawnadwyedd ac asesiad pellach pan gaiff Cytundebau Cyflog Teg manwl eu datblygu.
- **Erthygl 6 – Bywyd, goroesiad a datblygiad:** Gall gofal cymdeithasol sefydlog o ansawdd da gefnogi datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant, yn enwedig ar gyfer plant anabl a phlant ag anghenion gofal cymhleth. Gallai gwella cyfraddau recriwtio a chadw gweithlu atgyfnerthu'r hawl hon drwy wella parhad ac ansawdd gofal. Dylai gwaith monitro yn y dyfodol ystyried a fydd rhoi'r polisi ar waith yn effeithio ar fynediad at wasanaethau hanfodol.
- **Erthygl 12 – Parch at farn y plentyn:** Nid oes unrhyw waith cyfranogol uniongyrchol wedi'i wneud hyn yma am mai ymwneud â fframwaith y gweithlu y mae'r cynnig yn hytrach na newid gwasanaethau neu hawliau plant yn uniongyrchol.
- **Erthygl 18 – Cyfrifoldebau rhieni a chymorth y wladwriaeth:** Dylai gweithlu mwy sefydlog helpu teuluoedd i ofalu am blant a darparu ar gyfer cydberthnasau gwell rhwng partïon. Gallai hyn wella ansawdd y gofal a ddarperir a'r cymorth a roddir i rieni.
- **Erthygl 23 – Hawliau plant anabl:** Mae'n bosibl bod plant anabl yn dibynnu ar ofal cymdeithasol cyson a hygyrch a gweithlu medrus a sefydlog. Gallai'r cynnig atgyfnerthu'r hawl hon drwy wella amodau recriwtio, cadw staff a'r gweithlu. Dylai risgiau sy'n ymwneud ag argaeledd gwasanaethau, taliadau uniongyrchol a threfniadau ar gyfer cynorthwywyr personol gael eu hasesu a'u lliniaru wrth roi'r polisi ar waith yn y dyfodol.

- **Erthygl 24 – Iechyd a gwasanaethau iechyd:** Gallai Cytundeb Cyflog Teg gryfhau a gwella sefydlogrwydd y gweithlu, a allai gefnogi parhad gofal a mynediad at wasanaethau cymorth priodol i blant a phobl ifanc yn anuniongyrchol.
- **Erthygl 26 – Nawdd cymdeithasol:** Gallai amodau cyflog a chyflogaeth gwell atgyfnerthu diogelwch ariannol aelwydydd lle mae rhiant neu ofalwr yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol. Gallai hyn fod o fudd anuniongyrchol i blant yn yr aelwydydd hynny. Dylid monitro'r effaith i sicrhau na fydd unrhyw gostau gofal cynyddol yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar deuluoedd sy'n dibynnu ar wasanaethau.
- **Erthygl 27 – Safon byw ddigonol:** Gallai cyflog tecach wella incwm aelwydydd a safonau byw plant yn aelwydydd gweithwyr gofal cymdeithasol, yn enwedig y rhai ar incwm isel. Felly, gallai'r cynnig helpu i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol. Dylai mesurau lliniaru sicrhau na fydd trefniadau ariannu yn arwain at leihad yn nifer y gwasanaethau sydd ar gael na chynnydd anfforddiadwy mewn costau gofal.
- **Erthygl 31 – Gorffwys, chwarae a hamdden:** Gall gofal, seibiant a chymorth dibynadwy helpu plant anabl, gofalwyr ifanc a phlant eraill sydd â chyfrifoldebau gofal neu y mae angen iddynt orffwys, chwarae a chymryd rhan ym mywyd y gymuned. Gallai gweithlu mwy sefydlog gefnogi'r cyfleoedd hyn. Dylai asesiadau yn y dyfodol ystyried unrhyw newidiadau i ddarpariaeth seibiant neu gymorth.
- **Erthygl 42 – Gwybodaeth am hawliau:** Os bydd Cytundebau Cyflog Teg yn y dyfodol yn effeithio ar wasanaethau plant, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid darparu gwybodaeth sy'n addas i blant ac yn egluro sut mae barn plant a phobl ifanc wedi dylanwadu ar benderfyniadau.

4. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- **Os ydych wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?**

  Nid oes unrhyw waith cyfranogol uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc wedi'i wneud hyd yn hyn. Felly, nid oes grŵp penodol o blant a phobl ifanc i roi adborth iddynt ar hyn o bryd. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y gweithlu cyflogedig - gwella eu cyflog a'u telerau ac amodau – ac yn ceisio gwella cyfraddau recriwtio a chadw staff i sicrhau dull gweithredu cyson er mwyn i blant a phobl ifanc allu meithrin a chynnal cydberthynas dda â'r rhai sy'n gofalu amdanynt ac yn darparu cymorth iddynt.

5. Monitro ac Adolygu

- **Amlinellwch pa ddulliau monitro ac adolygu y byddwch yn eu rhoi ar waith i adolygu'r Asesiad Effaith Hawliau Plant hwn.**

  Dylid adolygu'r Asesiad Effaith Hawliau Plant hwn pan gaiff y Cytundeb Cyflog Teg cyntaf ei negodi a chyn iddo gael ei roi ar waith, oherwydd bydd y telerau manwl, y trefniadau ariannu a'r cwmpas yn pennu'r effaith ymarferol ar blant a phobl ifanc. Dylai gwaith monitro ystyried effeithiau ar bob gwasanaeth gofal

cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, plant anabl, gofalwyr ifanc, plant mewn aelwydydd incwm isel, plant yr effeithir arnynt gan daliadau uniongyrchol neu drefniadau cynorthwyydd personol, a phlant mewn aelwydydd gweithwyr gofal cymdeithasol. Gallai tystiolaeth berthnasol gynnwys data recriwtio a chadw gweithlu, argaeledd gwasanaethau, cynaliadwyedd darparwyr, adborth gan awdurdodau lleol a chomisiynwyr, monitro cydraddoldeb, cwynion neu bryderon, ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, teuluoedd a sefydliadau eiriolaeth lle y bo'n briodol.

- **Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu ei weithrediad?**

  Nid oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi cyffredinol ar hyn o bryd yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol, gan fod disgwyl i'r cynnig gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol yn bennaf ar blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, efallai y bydd angen diwygiadau neu fesurau lliniaru pellach unwaith y bydd y Cytundeb Cyflog Teg manwl yn hysbys, yn enwedig os bydd tystiolaeth yn dangos effeithiau ar argaeledd gwasanaethau plant, cynaliadwyedd darparwyr, taliadau uniongyrchol, costau gofal, parhad gofal neu allu plant a phobl ifanc i gael cymorth..